



Iwan Davies
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy,
LL32 8DU

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

10 Awst 2015

Annwyl Mr Davies

Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am roi ymateb terfynol i'm Hanghenion Gweithredu, sef ymateb yr wyf wedi cael cyfle i'w ddadansoddi bellach.

Wrth ddadansoddi'r ymateb a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Mae'n glir bod eich ymateb yn dangos ymrwymiad i gyflawni'r newid angenrheidiol a amlinellais yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac mae'n manylu'n glir ar gamau rydych chi wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r canlyniadau arfaethedig.

Rwy'n arbennig o falch bod eich sefydliad wedi defnyddio'r adborth adeiladol a gynigiais yn gynharach yn y flwyddyn er mwyn gwella'ch ymateb. Mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd mewn rhai o'r Anghenion Gweithredu.

Mae'ch sefydliad wedi cynnig mynd ati i ddatblygu gwasanaethau neu brosesau newydd sydd â'r potensial i symud ymlaen fel arferion gorau. Er enghraifft, rydych chi wedi ymrwymo i ddatblygu a chomisiynu

gwasanaeth eiriolaeth newydd a gwell i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal (Angen Gweithredu 1.6).

Gan hynny, rwy'n fodlon bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'm Hanghenion Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r newid angenrheidiol. Serch hynny, rhaid imi nodi bod un maes o hyd lle mae angen rhagor o waith er mwyn rhoi sicrwydd imi y bydd y newid a'r gwelliant angenrheidiol yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn. Byddwn i hefyd yn disgwyl eich gweld yn datblygu gweithdrefnau clir ar gyfer adolygu a chloriannu er mwyn rhoi sicrwydd ar lefel uchel yn eich sefydliad y bydd y canlyniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

Mae dadansoddiad manwl wedi'i atodi o'r wybodaeth ychwanegol a roesoch mewn ymateb i'm cais.

Fel y gwyddoch, o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb.

Fel y dywedais yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu ledled Cymru ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol am hyn ac am y camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd. Caiff y datganiadau hyn eu gwneud ar 11 Awst.

Dwy ddim yn bwriadu gofyn am ddiweddariad manwl am yr holl gamau sydd gennych ar y gweill, oherwydd lefel y sicrwydd a'r ymrwymiad rydych chi wedi'u dangos wrth sicrhau'r canlyniadau hyn. Gan hynny, rwy'n bwriadu cynnal adolygiad dilynol ymhen 18 mis, pryd y byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau hyn wedi'u cyflawni'n gyson ar draws cartrefi gofal eich ardal (bod eich camau chi wedi'u cwblhau). Yn nes ymlaen, byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyd a lled yr adolygiad a'r dull y byddaf yn ei ddefnyddio.

Er hynny, mae yna nifer o feysydd y bydd arna i angen diweddariad a sicrwydd yn eu cylch yn y cyfamser ac fe fyddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â'r rhain a sut y byddaf yn gofyn ichi wneud hyn.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yr ansawdd bywyd gorau posibl a'r safonau gofal uchaf.

Yn gywir



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Terfynol - Derbyniol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn cynnwys gwybodaeth nid yn unig am y ddarpariaeth eiriolaeth bresennol, ond hefyd am gamau y mae'n bwriadu eu cymryd yn y dyfodol agos i wella'r ddarpariaeth eiriolaeth. Er enghraifft, mae'r Awdurdod Lleol yn dweud bod gwasanaeth eiriolaeth Age Connect ar hyn o bryd yn cynnwys eiriolaeth heb ei chyfarwyddo, ac y gall yr Awdurdod Lleol roi enghreifftiau penodol lle mae eiriolaeth wedi'i defnyddio fel rhan o weithdrefnau diogelu ac fel rhan o weithdrefnau pryderon cynyddol.

Wrth edrych ymlaen, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i gloriannu darpariaeth eiriolaeth bresennol Age Connects ac i ddatblygu a chomisiynu gwasanaeth newydd a gwell i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Ar ben hyn, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i gynnal archwiliad o brosesau POVA mewn perthynas â defnyddio eiriolaeth, gan ddweud bod manyleb ranbarthol newydd yn nodi'r angen penodol am ymyriadau ar ffurf eiriolaeth ar ran pobl lle ceir pryder o ran galluedd a chyfathrebu.

Nodais uchod fod diogelu a phryderon cynyddol yn sefyllfaoedd lle roedd eiriolaeth yn cael ei darparu. Gan hynny, er mwyn cydymffurfio'r llawn â chanlyniadau arfaethedig yr Angen Gweithredu hwn, byddwn yn disgwyl i'r ddarpariaeth eiriolaeth y mae ar berson hŷn ei hangen i'w helpu i ymadael â'r ysbyty gael ei chynnwys yn bendant yn y fanyleb newydd.

Fe allai'r camau presennol hyn a'r camau hyn at y dyfodol sicrhau bod pobl hŷn yn gallu sicrhau eu hawliau a sicrhau bod eu pryderon yn cael sylw, yn arbennig mewn sefyllfaoedd lle maen nhw'n agored i niwed. Mae'n arbennig o dda gweld bod y gwasanaethau eiriolaeth sy'n cael eu cynnig i bobl hŷn wedi'u cynnwys yn benodol mewn cynlluniau gofal. Dylai hyn fod yn ffordd fuddiol i olrhain realiti'r mynediad i eiriolaeth a sut mae'n cael ei defnyddio.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan yr Awdurdod Lleol.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Terfynol - Derbyniol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Rwy'n croesawu'r dull integredig y mae'r Awdurdod Lleol wedi'i ddefnyddio, gydag Awdurdodau Lleol cyfagos a hefyd gyda'r Bwrdd Iechyd, er mwyn sicrhau bod gan bobl hŷn gyfle i ddefnyddio gwasanaethau arbenigol a gofal amlddisgyblaeth sydd wedi'u dylunio i helpu adsefydlu.

Er enghraifft, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i raddol gyflwyno'r 'cynllun gofal a chymorth integredig' fel cynllun peilot mewn dau dîm yn yr un lleoliad, gyda chynllun i gloriannu ei lwyddiant a'i gyflwyno ledled y sir. Fe allai'r dull integredig hwn sicrhau bod pobl hŷn yn cael y cymorth y

mae arnyn nhw ei angen ar draws gwasanaethau iechyd a gwasanaethau'r awdurdod lleol i'w galluogi i gynyddu eu hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd i'r eithaf.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cyfeirio at ddefnyddio timau wedi'u lleoli yn yr un fan sy'n cyflwyno cymorth cydlynol, ac rwy'n croesawu hyn. Serch hynny, rwy'n nodi bod yr ymateb yn dweud nad yw'r llwybr gofal integredig yn dibynnu ar ddeiliadaeth, ond eto i gyd ei fod wrthi'n negodi i ehangu'r ymatebion i mewn i gartrefi gofal. Yn hyn o beth mae'n rhaid imi bwysleisio fy mod yn disgwyl i'r holl bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal gael cyfle cyfartal i gael gofal gan dîm amlddisgyblaeth sydd wedi'i leoli yn yr un lle, a'r cyfle hwnnw wedi'i seilio ar eu hangen ac nid ar eu preswylfa.

Mae yna nifer o ymrwymadau eraill sydd â'r potensial i wella mynediad i ofal arbenigol a gofal amlddisgyblaeth, megis trafodaeth ynghylch cyflwyno hyfforddiant ar alluogi, ac ehangu'r rhaglen 'Llesiant' i'r sector gofal. Ar ôl y trafodaethau hyn, byddwn yn disgwyl gweld cynllun gweithredu clir i sicrhau mynediad pobl hŷn i'r gwasanaethau hyn, yn arbennig ar ôl cyfnod o salwch.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan yr Awdurdod Lleol.

Angen Gweithredu 3.2

Casgliad Terfynol - Rhannol

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwyllo ac asesu perfformiad.

Mae'r ymateb i'r Angen Gweithredu hwn gan yr Awdurdod Lleol yn dangos yn glir fod yna ymrwymiad i wella dealltwriaeth staff o anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn sy'n byw â dementia.

Er enghraifft, rwy'n croesawu'r ffaith bod Manyleb Wasanaeth Ranbarthol ar gyfer Cartrefi Gofal wedi'i datblygu a honno'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff newydd ddilyn cyfnod ymsefydlu sy'n dangos eu bod wedi cael hyfforddiant sylfaenol mewn dementia, a'r ffaith bod Cynllun Dysgu Dementia wedi'i gyflwyno sy'n canolbwyntio ar hyfforddiant gorfodol ar Lefel 2 a 3. Bydd y niferoedd sy'n manteisio ar yr hyfforddiant gorfodol newydd yn cael eu monitro fel rhan o drefniadau monitro'r contract, ac mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio gyda rheolwyr a pherchnogion cartrefi gofal i sicrhau bod dulliau cyflwyno'r hyfforddiant yn fwy hygyrch.

Er gwaethaf yr ymrwymiad hwn i wella'r mynediad i hyfforddiant dementia i staff gofal, nid yw'r ymateb yn dweud yn bendant y bydd rheolwyr cartrefi gofal eu hunain yn ymgymryd â rhagor o hyfforddiant dementia. Mae'r ymateb yn dweud y bydd rhaid iddyn nhw roi tystiolaeth o ddatblygiad parhaus i'r holl weithwyr cyflogedig o dan y Fanyleb Wasanaeth Ranbarthol newydd ar gyfer Cartrefi Gofal. Er hynny, nid yw'n glir a yw hyn yn cynnwys hyfforddiant dementia i reolwyr cartrefi gofal sy'n ychwanegol at hyfforddiant sylfaenol staff cartrefi gofal.

Er hynny, rwy'n sicr yn croesawu'r ffaith y bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia yn cael ei gyflwyno i'r holl staff sy'n monitro contractau. Fe allai hynny alluogi'r staff sy'n monitro contractau i wirioneddol ddeall anghenion pobl hŷn sy'n byw â dementia a deall y sgiliau a'r cymwyseddau y mae eu hangen er mwyn i staff cartrefi gofal eu helpu mewn modd priodol.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan yr Awdurdod Lleol.

Angen Gweithredu 3.3

Casgliad Terfynol - Derbyniol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a

chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu fel pe bai'n cydnabod mor bwysig yw cyfeillio, a'i fod yn rhoi gwybodaeth gryno am y ddarpariaeth gyfredol ynglŷn â chynlluniau cyfeillio ar draws yr ardal. Er enghraifft, mae'r ymateb yn disgrifio cyfraniad y Groes Goch Brydeinig a grwpiau gwirfoddol bach eraill.

Mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod bod ei waith i fonitro'r niferoedd sy'n manteisio ar gynlluniau cyfeillio mewn gofal preswyl yn anghyflawn, ac felly rwy'n croesawu'r ymrwymiad i sicrhau meincnod ar gyfer y gwaith cyfeillio a gwirfoddoli sy'n digwydd. Fe ddylai hynny roi golwg i'r Awdurdod Lleol ar y cyfle sydd gan bobl hŷn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfeillio ac effaith hyn ar eu hansawdd bywyd.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dangos ymrwymiad i wella'r ddarpariaeth o ran cynlluniau cyfeillio. Er enghraifft, mae'n dweud y bydd yn dysgu oddi wrth brosiect blaenorol i bontio'r cenedlaethau er mwyn gwella'r gwaith cyfeillio presennol ac rwy'n croesawu'r ffaith bod Swyddogion Llesiant Cymunedol wedi'u cyflwyno, a fydd yn datblygu strategaeth i sicrhau bod y rôl gyfeillio yn gadarn mewn cartrefi gofal. Da hefyd yw gweld bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddatblygu rhaglen hyfforddi ar y cyd â'r trydydd sector i gynnwys 'beth yw cyfeillio?'. Fe allai'r camau hyn sicrhau bod y staff yn deall mor bwysig yw cyfeillio ar gyfer ansawdd bywyd pobl hŷn, ac o ganlyniad fod pobl hŷn yn cael cymorth i gynnal cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon, eu bod yn cael arddel eu ffydd a chadw cysylltiadau diwylliannol pwysig.

Er nad oes cyfeiriad pendant at gymorth wedi'i seilio ar ffydd a chymunedau diwylliannol penodol yn ymateb yr Awdurdod Lleol, fe fyddwn yn disgwyl yn llawn i'r elfennau penodol hyn mewn gwaith cyfeillio gael eu cymryd i ystyriaeth, gan y Swyddogion Llesiant Cymunedol ac yn ystod y gwaith meincnodi. Heb wneud hyn, mae yna risg y gallai pobl hŷn fod yn unig neu ar wahân yn gymdeithasol, heb gyfle i gael cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan yr Awdurdod Lleol.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Terfynol - Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Terfynol - Derbyniol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae'r ymateb i'r Angen Gweithredu hwn yn rhoi gwybodaeth am nifer o ddulliau y mae'r Awdurdod Lleol yn eu defnyddio i wella'r ffordd y mae'n gwrando ar lais pobl hŷn mewn cartrefi gofal ac yn deall y llais hwnnw. Er enghraifft, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwmo i gyflwyno arolwg ansawdd bywyd a fydd yn rhan o'r prosiect Codi Llais y mae'n ei gomisiynu gan Age Connects, a bod Rhwydwaith Cyfranogi Conwy wedi nodi'r angen i gynyddu cyfranogiad y preswylwyr mewn amryw o leoliadau gofal. Ar ben hynny, mae'r Awdurdod Lleol yn ailffocysu rôl adolygiadau monitro contractau ac yn rhoi hyfforddiant ychwanegol i'w staff er mwyn sicrhau ffocws ar leisiau defnyddwyr gwasanaethau a'r canlyniadau iddyn nhw.

Rwy'n croesawu'r camau hyn am fod ganddyn nhw'r potensial i sicrhau y bydd gan gomisiynwyr a darparwyr ddealltwriaeth well o ansawdd bywyd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Fe allai'r materion sy'n cael eu nodi drwy'r prosesau hyn gael eu trin a'u trafod cyn iddyn nhw greu effaith a mynd yn ddrud i'w datrys. Ar ben hynny, codais bryder ynglŷn ag ymateb cychwynnol yr Awdurdod Lleol, sef nad oedd cyfeiriad at ansawdd bywyd, ac mae'n dda gen i fod hyn wedi cael sylw erbyn hyn.

Serch hynny, ac er bod y camau hyn yn gamau cadarnhaol, rwy'n gofidio mai ymarferion ffurfiol yw'r rhain i raddau helaeth ac na fydden nhw o reidrwydd yn rhoi cyfle i bobl hŷn godi pryderon ar sail ad hoc, yn anffurfiol ac o ddydd i ddydd. Gan hynny, mae yna bosibilrwydd na fydd rhai materion yn cael eu nodi ac y bydd cyfle i wneud newidiadau bach er mwyn gwella'n arwyddocaol ar ansawdd bywydyn cael ei golli.

Wedi dweud hynny, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwmo i gyhoeddi canlyniad y gwaith hwn yn ei adroddiad blynyddol. Rwy'n croesawu hyn am y gallai ddangos sut mae adborth cyson pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliannau parhaus.

Mae'r ymateb yn cynnwys amserlenni clir ar gyfer cwblhau'r camau a nodwyd, ac mae hefyd yn enwi unigolyn atebol. Dylai eglurder y dull hwn ganiatáu i ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn, ac unrhyw newidiadau a wneir iddyn nhw, gael eu monitro'n ofalus gan yr Awdurdod Lleol.

Angen Gweithredu 6.7

Casgliad Terfynol - Derbyniol

6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Mae'r ymateb i'r Angen Gweithredu hwn gan yr Awdurdod Lleol yn cydnabod mai adroddiadau at ddibenion mewnol ac at ddibenion gwaith craffu yn unig sydd wedi'u llunio hyd yn hyn, a'i fod wedi cyfeirio aelodau o'r cyhoedd at adroddiadau AGGCC. Gan hynny, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i gyflwyno rhaglen waith i gasglu'r canlyniadau mewn adroddiad blynyddol ar ansawdd. Bydd hyn yn sicrhau bod gan bobl hŷn gyfle i weld gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon am yr ansawdd bywyd a'r gofal sy'n cael eu darparu gan gartrefi gofal unigol neu ynddyn nhw, a bod pawb yn fwy agored a thryloyw ynghylch ansawdd cartrefi gofal.